



Llais Gwent

I bensiynwyr sy'n aelodau o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

Gaeaf 2019

Gair o Groeso gan y Rheolwr Pensiynau

Ar fy rhan i a'r adran pensiwn, hoffwn eich croesawu i'ch rhifyn Gaeaf 2019 o Llais Gwent, ein cylchlythyr i bensiynwyr sy'n aelodau o Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen).

Mae uchafbwyntiau'r rhifyn hwn yn cynnwys:

- Y Diweddaraf ar Fuddsoddiadau Cyfrifol
- Gwybodaeth ar sut i gofrestru ar gyfer Fy Mhensiwn Ar-lein
- Chwilair Nadoligaidd i chi fwynhau.

Os gallwch chi feddwl am unrhyw welliannau i'r gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig i chi, byddem yn croesawu unrhyw adborth gennych. Mae ein rhif ffôn, cyfeiriad e-bost a chyfeiriad post ar gael ar dudalen olaf Llais Gwent.

Rwy'n gobeithio y bydd y cylchlythyr yn llawn gwybodaeth ac yn ddiddorol i chi

Dymuniadau Gorau

Jo Griffiths



Rhoi eich cyfeiriad e-bost diweddaraf

Os yw'n well gennych i ni gysylltu â chi trwy e-bost rydym bob amser yn hapus i wneud hynny. Mae'n bwysig iawn eich bod yn sicrhau eich bod yn rhoi'r cyfeiriad e-bost diweddaraf inni. Os byddwch chi'n newid eich cyfeiriad e-bost cofiwch roi gwybod i ni fel y gallwn ni ddal ati i gysylltu â chi.

Cynnydd i Bensiynau – 6 Ebrill

Mae'n bleser gennyf ddweud wrthyfch mai 1.7% oedd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ym mis Medi 2019 ac felly bydd cynnydd o 1.7% yn eich pensiwn, ddydd Llun 6 Ebrill 2020.

Os talwyd eich pensiwn i chi am lai na 12 mis efallai y byddwch yn derbyn cyfran o'r cynnydd.

Slipiau Talu Byddwn yn postio slip cyflog i chi ym mis Mawrth, Ebrill a Mai 2020 fel y gallwch weld faint mae eich pensiwn eich hun wedi codi. Ni fyddwn yn postio slip cyflog i chi am unrhyw fis arall o'r flwyddyn, oni bai bod swm y pensiwn yr ydym yn ei dalu i chi yn y mis hwnnw'n newid o £5 neu fwy.

Eich P60 ar gyfer 2019/20 Byddwn hefyd yn anfon P60 atoch gyda slip cyflog Mai 2020. Dyma'ch **cofnod swyddogol** o'r pensiwn a dalwyd i chi yn ystod y flwyddyn, ac unrhyw dreth a dalwyd gennych chi.

Bydd slip talu mis Mawrth 2020 hefyd yn dangos eich pensiwn a'r dreth a dalwyd yn y flwyddyn dreth 19/20.

Os ydych wedi cofrestru i ddefnyddio Fy Mhensiwn ar-lein gallwch argraffu eich slipiau cyflog a'ch P60s eich hun a chofiwch ein bod yn anfon slip cyflog i'ch cyfrif Fy Mhensiwn Ar-lein bob mis.

Dyddiad Talu'ch Pensiwn ym mis Rhagfyr 2019

Byddwn yn talu'ch pensiwn ar gyfer Rhagfyr 2019 i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu ar ddiwrnod gwaith olaf y mis.

Y dyddiad fydd dydd Mawrth 31 Rhagfyr 2019. Gallwch weld ddyddiadau talu eich pensiwn ar gyfer 2020 ar galendr 'torri allan a chadw' Dyddiadau Talu Pensiwn 2020 ar dudalen gefn y cylchlythyr hwn.

Buddsoddiadau Cyfrifol

Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLI)

Sut yr ydym yn buddsoddi arian cynilion pensiynau mewn ffordd gyfrifol a chynaliadwy

Yn Llais Gwent y llynedd fe wnaethom ddweud ychydig wrthyfch am sut rydym yn buddsoddi'r Gronfa Bensiynau Cysylltodd nifer o aelodau sy'n bensiynwyr â ni i ddweud bod ganddyn nhw ddiddordeb mewn darllen am sut rydyn ni'n meddwl am fuddsoddiadau cyfrifol a'n hól troed carbon pan rydyn ni'n buddsoddi'r Gronfa Bensiwn. Felly yn Llais Gwent eleni roeddem o'r farn y byddem yn rhannu'r hyn rydym wedi bod yn ei wneud yn y maes hwn dros y deuddeg mis diwethaf.

Rydym yn buddsoddi'r Gronfa Bensiynau mewn llawer o wahanol fathau o fuddsoddiadau ledled y byd. Rydyn ni'n gwneud hyn i leihau'r risg, fel mae'r hen ddywediad yn dweud 'fel nad ydym yn rhoi'r holl wyau mewn un fasged'. Mae unrhyw elw a wnawn ar ein buddsoddiadau yn ein helpu i gadw swm y cyfraniadau y mae'n rhaid i sefydliadau cyflogi eu talu i'r CPLIL yn sefydlog. Nid yw hyn yn cael unrhyw effaith ar y pensiwn a dalwn i chi gan fod eich pensiwn wedi'i warantu.

Mae gennym ddyletswydd cyfreithiol i ofalu am ein harian pensiwn a hynny er pennaf les aelodau'r CPLIL. Risg sy'n bwysig i'n buddsoddiadau yw newid yn yr hinsawdd sy'n effeithio ar rhai mathau o fuddsoddiadau, yn cynnwys buddsoddi mewn cwmnïau nad ydynt yn medru addasu i ddyfodol carbon isel. Rydym hefyd yn buddsoddi'r gronfa bensiynau yn hirdymor a hynny am ein bod yn casglu a buddsoddi arian pensiynau i bobl sy'n gweithio heddiw, a byddwn yn ei ddefnyddio i dalu eu pensiynau pan fyddant yn ymddeol, a gallai hyn fod mewn degawdau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ni chwilio am fuddsoddiadau a fydd



yn rhoi enillion da ar ein buddsoddiadau a fydd yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Rhaid bod unrhyw newidiadau yr ydym yn eu gwneud i'n buddsoddiadau fod ar sail penderfyniadau gwybodus a rhaid eu rheoli'n ofalus.

Ein dau bolisi newydd

- **Polisi Buddsoddiadau Cyfrifol a Chynaliadwy**
- **Polisi Newid yn yr Hinsawdd**

Am yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae gennym Weithgor Buddsoddiadau Cyfrifol, sy'n cynnwys aelodau'r Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau, yn edrych yn agos ar fuddsoddiadau cyfrifol a chynaliadwy. Mae'r grŵp wedi datblygu polisïau newydd ar Fuddsoddiadau Cyfrifol a Chynaliadwy a Newid Hinsawdd a gymeradwywyd gan ein Pwyllgor Pensiynau ym mis Medi 2019

Os hoffech ddarllen ein polisïau newydd maent ar dudalen Ffurflenni a Chyhoeddiadau ar ein gwefan www.gwentpensionfund.co.uk, yn yr adran fuddsoddi. Os nad oes gennych fynediad i'r rhyngwrwyd a hoffech eu darllen rhwch wybod ac fe anfonwn copi atoch.

Yr hyn y buom yn ei wneud i leihau ein hól-troed carbon

Mae yna nifer o wahanol rhannu i fuddsoddiadau cyfrifol a chynaliadwy yn ein polisi. Rydym yn ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a rheolaeth ond ar hyn o bryd mae ein hól-troed carbon yn

uwch na'r hyn yr hoffem iddo fod, ac mae'r Gronfa Bensiynau o'r farn mai dyma yw'r flaenoriaeth uchaf ar hyn o bryd, er ein bod ni'n dal i feddwl am faterion cyfrifol a chynaliadwy eraill pan fyddwn ni'n gwneud penderfyniadau am fuddsoddiadau.

Wrth bleidleisio i gymeradwyo ein polisïau newydd, mae'r Pwyllgor Pensiynau bellach wedi nodi'n ffurfiol mai ein nod yw lleihau ôl troed carbon y Gronfa Bensiwn dros amser. Mae'r cam pwysig hwn yn golygu ein bod am chwarae ein rhan yn llawn tuag at gadw cynhesu byd-eang ymhell o dan 2°C, yn unol â pholisïau a chytundebau rhyngwladol cyfredol llywodraethau San Steffan a Chymru

Mae'r llywodraeth wedi dweud wrth gronfeydd CPLIL lleol i weithio gyda'i gilydd i 'gyfuno' eu buddsoddiadau, ac rydym bellach yn buddsoddi llawer o'n Cronfa Bensiwn trwy Bartneriaeth Pensiwn Cymru, cydweithrediad sy'n cynnwys yr wyth cronfa CPLIL yng Nghymru. Mae hyn yn golygu, yn hytrach na bod yn rhaid i bob un o'r wyth cronfa CPLIL yng Nghymru dalu ffioedd ar wahân i reolwyr buddsoddi arbenigol i ofalu am ein harian, gallwn nawr rannu rheolwyr buddsoddi, a thrwy hynny leihau costau sy'n golygu bod mwy o arian yn aros ym mhob un o'r gronfeydd CPLIL lleol. Rydyn ni wedi bod yn symud rhai o'n buddsoddiadau Cronfa Bensiwn i fuddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn cyfun newydd, ac wrth wneud hynny wedi helpu i leihau ôl troed carbon yr arian hwnnw yn fesuradwy. Enghraifft o hyn yw ein buddsoddiad yng nghwmnïau'r DU (ecwiti) lle mae newidiadau wedi gostwng ein hól troed carbon ond rydym hefyd wedi lleihau'r symiau cyffredinol yr ydym yn eu buddsoddi yn y DU sy'n farchnad sy'n fwy seiliedig ar garbon na rhai ardaloedd daearyddol eraill. Rydyn ni hefyd wedi gostwng faint o arian rydyn ni wedi'i fuddsoddi mewn tanwydd ffosil ac ry'n ni'n parhau i chwilio am ffyrdd i leihau hyn ymhellach. Ym mis Medi 2019 pleidleisiodd ein Pwyllgor Pensiynau i symud £660 miliwn arall o'n Cronfa Pensiynau (tua 22% o holl fuddsoddiadau'r Gronfa bensiynau) i fuddsoddiad carbon isel gyda Blackrock, a

fydd yn gostwng 80% ar ôl-troed carbon yr arian hwnnw.

Yr hyn y byddwn yn ei wneud wrth symud ymlaen

Byddwn yn gweithio'n agosach o lawer gyda chronfeydd Pensiynau CPLIL eraill yng Nghymru a hynny ar gyfuno buddsoddiadau, ac yn ddiweddar mae Partneriaeth Pensiynau Cymru wedi cyhoeddi polisi buddsoddi cyfrifol i



ddangos ei hymrwymiad ei hun yn y maes hwn. Gellir ei gweld wrth ddilyn y ddolen ganlynol:

<https://www.partneriaethpensiwncymru.org/cyhoeddiadau/polisi-buddsoddiad-cyfrifol/>

Mae gweithio gyda chronfeydd pensiwn eraill yn ein helpu i ymgysylltu â'r cwmnïau rydyn ni'n buddsoddi ynddynt, trwy roi llais cryfach ar y cyd i ni wrth siarad â nhw am sut maen nhw'n gwneud o ran newid yn yr hinsawdd, a materion amgylcheddol, cymdeithasol a materion rheoli eraill sydd yn rhannau allweddol o fuddsoddiadau cyfrifol a chynaliadwy. Mae Cadeirydd ein Pwyllgor Pensiynau bellach ar weithrediaeth Fforwm Cronfa Bensiynau'r Awdurdod Lleol. Mae hwn yn grŵp o 80 o gronfeydd CPLIL lleol, sydd â dros £250 biliwn o fuddsoddiadau ar y cyd, a gyda'n gilydd rhydd lais pwerus inni wrth drafod, a cheisio dylanwadu ar y cwmnïau rydyn ni'n buddsoddi ynddynt. Fel rhan o'n hymrwymiad i genedlaethau'r dyfodol rydym eisoes wedi gwneud dechrau da ar ein taith tuag at leihau ein hól troed carbon, er ein bod yn gwybod bod gennym ffordd bell i fynd. I'r perwyl hwn, byddwn yn parhau i gymryd cyngor arbenigol i fesur ôl troed carbon ein buddsoddiadau, ac edrych yn ofalus ar fuddsoddiadau cyfrifol a chynaliadwy tymor hir a fydd yn ein helpu i barhau i leihau ein hól troed carbon.

Fy Mhensiwn Ar-lein

A ydych chi wedi

cofrestru i ddefnyddio **Fy Mhensiwn Ar-lein** eto?

Os ydych eisoes wedi cofrestru ar **Fy Mhensiwn Ar-lein** gallwch weld eich slipiau talu ar gyfer holl fisoedd y flwyddyn a'ch P60 blynyddol trwy fynd i'ch cyfrif diogel.

I'r rheini sydd wedi cofrestru ar **Fy Mhensiwn Ar-lein**, y flwyddyn nesaf byddwn yn anfon eich **Llais Gwent** atoch drwy eich cyfrif yn hytrach na thrwy'r post.

Mae'n hawdd iawn cofrestru ar ein gwefan www.gwentpensionfund.co.uk.

Cliciwch ar ddolen **Fy Mhensiwn Ar-lein** (ar frig y sgrin).

1. Bydd angen i chi deipio'ch Rhif Yswiriant Cenedlaethol a'ch Cod Post . Wrth wneud hynny bydd y system yn eich adnabod. Os ydych chi wedi newid eich cyfeiriad a heb ddweud wrthym, bydd angen i chi ddweud wrthym cyn cofrestru.
2. Gofynnir i chi ddewis Enw Defnyddiwr a Chyfrinair ar gyfer eich cyfrif **Fy Mhensiwn Ar-lein**.
3. Gofynnir i chi nodi rhai cwestiynau diogelwch. Bydd y rhain yn ein helpu i'ch

adnabod chi os byddwch yn cysylltu

â ni, neu os bydd angen i chi ailosod Cyfrinair newydd yn y dyfodol.

Pan fyddwch wedi cofrestru i ddefnyddio **Fy Mhensiwn Ar-lein** byddwn yn anfon **rhif PIN** atoch. Er diogelwch byddwn yn postio hwn i'ch cyfeiriad cartref. Dylai gymryd tua 5 diwrnod gwaith i gyrraedd.

Pan fyddwch yn cael eich rhif PIN gallwch ddefnyddio'ch Rhif Defnyddiwr a'ch Cyfrinair i fewngofnodi ar **Fy Mhensiwn Ar-lein**. Yna fe fydd yn gofyn i chi deipio'r rhif PIN yr ydym wedi ei anfon atoch.

Peidiwch â phoeni os na fedrwyd fynd ar y ryngrwyd neu os nad ydych chi am ddefnyddio **Fy Mhensiwn Ar-lein**. Byddwn yn parhau i anfon slipiau cyflog atoch drwy'r post ym mis Mawrth, Ebrill a Mai ac os bydd y pensiwn rydym yn ei dalu i chi yn newid o £5 neu fwy.

Yn anffodus, nid yw'r gwasanaeth ar gael i bensiynwyr a oedd yn gynghorwyr



Y Fenter Twyll Genedlaethol

Mae dyletswydd ar Gronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) i ddiogelu'r arian cyhoeddus a weinyddwn. Mae hyn yn cynnwys cymryd rhan ym Menter Twyll Genedlaethol y Llywodraeth, a gallwn rannu gwybodaeth â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu arian cyhoeddus er mwyn atal a chanfod twyll.

Mae'r FTG yn gweithredu o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 i warchod y pwrs cyhoeddus trwy gyfateb data ar draws sefydliadau sector cyhoeddus, i atal a chanfod twyll.

Cynhelir ymarfer gan y MTC bob dwy flynedd. Ers i'r MTC ddechrau ym 1996, mae wedi

helpu i olrhain £1.3 biliwn o ran twyll, gwallau a gordaliadau ledled y DU.

Bydd ymarfer nesaf y MTC yn cael ei chynnal ym mis Hydref 2020 ac mae'n ofynnol inni ddarparu gwybodaeth am aelodau sy'n bensiynwyr i Swyddfa Archwilio Cymru i gyfateb data.

Mae'r FTG yn gweithredu o dan y '**Cod Ymarfer Paru Data**' i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth, yn enwedig y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Gallwch ddarllen mwy o wybodaeth am baru data, a lawr lwytho'r Cod, ar dudalen gwefan Swyddfa Archwilio Cymru, ar:

www.audit.wales/about-us/national-fraud-initiative

Dywedwch wrthym am eich newidiadau

Os ydych chi'n byw dramor

Os ydych chi'n byw dramor mae'n rhaid inni gynnal gwiriadau rheolaidd a elwir yn **'Dystysgrif Ardystio Bywyd'** er mwyn sicrhau bod ein cofnodion yn gywir a diweddar. Gwnawn hyn drwy ofyn i chi fynd â llun ohonoch i'ch cangen Western Union, leol.

Diolch i'r holl bensiynwyr sy'n byw dramor a gymerodd ran yng ngwiriadau 'Ardystio Bywyd' Western Union 2019, a diolch i bawb a roddodd adborth inni ar eich profiad. Dywedodd eich adborth wrthym fod y gwiriadau wedi gweithio'n dda i'r mwyafrif ohonoch. I'r rhai ohonoch a ddywedodd wrthym am unrhyw broblemau a ganfuoch,

rydym ni a Western Union wedi gwrando ar eich adborth a byddwn yn gwneud ein gorau i sicrhau bod gwiriadau'r flwyddyn nesaf yn gweithio'n well i chi

Gwiriadau Ardystio Bywyd 2020

Bydd gwiriadau 'Ardystio Bywyd' y flwyddyn nesaf i bensiynwyr sy'n byw dramor yn cychwyn ym mis Awst 2020.

Cofiwch, os byddwch yn cadw cyfeiriad post yn y DU ond yn symud dramor rhaid i chi ddweud wrthym oherwydd bydd angen i ni barhau i wneud gwiriad ardystio bywyd bob blwyddyn.

A ydych chi'n newid eich cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu?

Os ydych chi am i ni dalu eich pensiwn i mewn i gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu wahanol, yna mae'n rhaid i chi ddweud wrthym yn ysgrifenedig neu os byddwch chi'n cysylltu â ni, byddwn yn anfon **'Ffurflen Fy Nghyfrif Banc'** atoch, i chi ei llenwi i roi'r manylion newydd inni. Ni allwn ond dalu eich pensiwn i mewn i gyfrif yn eich enw chi neu gyfrif ar y

cyd gyda'ch enw. Os byddwch chi'n newid enw deiliad eich cyfrif banc am unrhyw reswm cofiwch gysylltu â ni i sicrhau ein bod ni'n cadw'r un wybodaeth â'ch banc. Bydd hyn yn osgoi'r risg y bydd eich taliadau pensiwn yn cael eu dychwelyd atom. Am resymau diogelwch, ni allwn gymryd manylion newid cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu dros y

Cwestiynau am y dreth yr ydym yn ei chymryd o'ch pensiwn

Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn dweud wrthym ba god treth i ddefnyddio ar gyfer eich pensiwn. Os byddant yn newid eich cod treth, byddant yn dweud wrthym ba god treth newydd i'w ddefnyddio.

Os bydd eich cod treth yn newid, yna yn anffodus ni allwn ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych. Y rheswm am hyn yw nad yw CThEM yn dweud wrthym pam eu bod wedi newid cod treth neu sut maent wedi ei gyfrifo. Maen nhw'n dweud wrthym fod rhaid inni ei gymhwyso, a hynny'n unig.

Ni allwn newid y cod treth yr ydym yn ei ddefnyddio ar gyfer eich pensiwn oni bai bod CThEM yn dweud wrthym i wneud hynny.

Os oes gennych gwestiwn am eich cod treth eich hun, bydd angen i chi fynd ati eich hun i gysylltu â HMRC..

Cofiwch mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cod treth cywir yn cael ei gymhwyso i'ch pensiwn

Gallwch weld manylion cyswllt HMRC ar Galendr Dyddiadau Talu Pensiwn 2020 ar gefn Llais Gwent.

Os byddwch chi'n cysylltu â HMRC am y dreth y maent yn ei ddweud wrthym am ei chymryd o'ch pensiwn, bydd angen i chi roi eich Rhif Yswiriant Gwladol a dyfynnu'r **Cyfeimod PAYE 948/T440N**.

A oes rhywun arall yn delio â'ch materion ariannol?

Os ydych chi'n meddwl eich bod eisiau rhywun arall i ddelio â'ch materion ariannol neu os oes rhywun eisoes yn gwneud hynny, mae'n bwysig gwybod nad ydyn ni'n cael gadael i berson arall ddelio â'ch pensiwn oni bai bod gennym ni'r wybodaeth a'r caniatâd cywir

Pan fydd gennym y wybodaeth a'r caniatâd cywir yna byddai'r person neu'r bobl benodedig yn gallu delio â'ch pensiwn ar eich rhan. Byddai hyn yn eu caniatáu i roi gwybod i ni am unrhyw newid i'ch cyfrif banc neu gyfeiriad. Byddent hefyd yn gallu gofyn am wybodaeth am eich pensiwn, fel copïau o'ch slipiau cyflog a'ch ffurflenni P60

Os oes gennych Bŵer Atwrnai ar waith ac nad ydych eto wedi dweud wrthym amdano, ffoniwch 01495 766279 a gallwn anfon ffurflen atoch i ofyn i chi am ragor o wybodaeth.

Os oes gennych Bŵer Atwrnai dros aelod sy'n bensiynwr, neu os cawsoch eich penodi'n 'ddirprwy' gan y Llys Gwarchod, cofiwch roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau fel newid cyfeiriad - mae hyn yn cynnwys pan fydd aelod sy'n bensiynwr yn symud i ofal preswyl



Gadewch i ni glywed eich barn amdanom



Mae Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen) bob amser yn chwilio am ffyrdd o wella'r gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu i'n haelodau. Hoffem glywed eich adborth am y gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i chi ac awgrymiadau o ran eu gwella. Rydyn ni'n cymryd adborth gan ein haelodau a'n cyflogwyr o ddifri i wella'r gwasanaeth rydyn ni'n ei gynnig.

Fel rhan o'n hymrwymiad i ymgysylltu mwy â'n haelodau ac annog ein haelodau i roi adborth am sut rydym yn gwneud, hoffem eich gwahodd i gymryd ychydig funudau o'ch amser i lenwi ein harolwg newydd ar-lein.

Byddwn yn monitro canlyniadau adborth yr arolwg y mae ein haelodau yn eu cwblhau ac yn rhoi diweddariad i chi ymhob cylchlythyr. Bydd hyn yn eich hysbysu am yr adborth a gawsom a'r hyn yr ydym yn ei wneud i wella'r gwasanaeth i'n haelodau.

Mae ein Harolwg Pensiynwr bellach ar gael ar-lein. Gallwch naill ai ei gyrchu trwy'r ddolen isod neu ar ein gwefan.

<https://forms.gle/naWi835YoceTfDAM9>

Rydym yn defnyddio gwasanaeth am ddim gan Google ar gyfer ein harolwg.

Chwilair Nadoligaidd

Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r rhifyn hwn o'r Cylchlythyr Pensiynau. Rydym wedi cynnwys chwilair Nadoligaidd i greu ychydig o hwyl yr ŵyl. Nid cystadleuaeth mo hon ac nid oes angen i chi anfon eich chwilair atom ar ôl ei gwblhau.

A N R H E G S L N U S W L A F
S R H O I G J E H T S R D L U
N G W P E B S G P G M D O A U
U A L L Y W H N A C U S H E J
N B D H N N L A R R I C C D P
I A P O E O P L N N Y A A D B
L N S D L E I I A L I D R M J
L L E O N I A H C W J F O I R
D O O G H D G H C S E E C S W
C E W N A U Y S U R T N F O D
R I E U A I L Y W G A T O W O
N R O M Y T U H C H W F R I L
C A R D I A U S T U J I Y G F
N B P G T P S E S A E M B C F
P J G P T S F B E C D S O H H

ADDURNIADAU
ADFENT
ANGEL
ANRHEG
CANHWYLLAU
CARDIAU
CEIRW
CLYCHAU
COEDEN
CORACHOD
CYFARCHION
DATHLU
EIRA
GWYLIAU
HOSAN
LLAWEN
LLON
LOSIN
NADOLIG
OER
PENGWIN
RHOI
RWDOLFF
SIMDDE
TYMOR



Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)

Diwrnodau Talu Pensiwn 2020

Diwrnod Talu'ch Pensiwn yw
diwrnod gwaith olaf y mis, sy'n
ymddangos yn felyn ar y calendr.

IONAWR						
M	T	W	T	F	S	S
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30	31		

CHWEFROR						
M	T	W	T	F	S	S
					1	2
3	4	5	6	7	8	9
10	11	12	13	14	15	16
17	18	19	20	21	22	23
24	25	26	27	28	29	

MAWRTH						
M	T	W	T	F	S	S
						1
2	3	4	5	6	7	8
9	10	11	12	13	14	15
16	17	18	19	20	21	22
23	24	25	26	27	28	29
30	31					

EBRILL						
M	T	W	T	F	S	S
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30			

MAI						
M	T	W	T	F	S	S
				1	2	3
4	5	6	7	8	9	10
11	12	13	14	15	16	17
18	19	20	21	22	23	24
25	26	27	28	29	30	31

MEHEFIN						
M	T	W	T	F	S	S
1	2	3	4	5	6	7
8	9	10	11	12	13	14
15	16	17	18	19	20	21
22	23	24	25	26	27	28
29	30					

GORFFENNAF						
M	T	W	T	F	S	S
		1	2	3	4	5
6	7	8	9	10	11	12
13	14	15	16	17	18	19
20	21	22	23	24	25	26
27	28	29	30	31		

AWST						
M	T	W	T	F	S	S
					1	2
3	4	5	6	7	8	9
10	11	12	13	14	15	16
17	18	19	20	21	22	23
24	25	26	27	28	29	30
31						

MEDI						
M	T	W	T	F	S	S
	1	2	3	4	5	6
7	8	9	10	11	12	13
14	15	16	17	18	19	20
21	22	23	24	25	26	27
28	29	30				

HYDREF						
M	T	W	T	F	S	S
			1	2	3	4
5	6	7	8	9	10	11
12	13	14	15	16	17	18
19	20	21	22	23	24	25
26	27	28	29	30	31	

TACHWEDD						
M	T	W	T	F	S	S
						1
2	3	4	5	6	7	8
9	10	11	12	13	14	15
16	17	18	19	20	21	22
23	24	25	26	27	28	29
30						

RHAGFYR						
M	T	W	T	F	S	S
	1	2	3	4	5	6
7	8	9	10	11	12	13
14	15	16	17	18	19	20
21	22	23	24	25	26	27
28	29	30	31			

Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl
Torfaen, NP4 6YB
Ffôn: 01495 766266
E-bost: pensions@torfaen.gov.uk

Fy Mhensiwn Ar-lein

Ydych chi wedi cofrestru i weld eich cyfrif pensiwn?
I gofrestru, ewch i'n gwefan www.gwentpensionfund.co.uk
a clicio ar **My Mhensiwn Ar-lein**
(ar frig y dudalen)

Manylion Cyswllt y Swyddfa Dreth
Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd, CF14 5FN
Ffôn: 0300 200 3300
Cyfeirnod PAYE 948/T440N